# Dysgu Gyda'n Gilydd

## Gwella'r gofal a ddarperir i gleifion ag anabledd dysgu sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty:

pethau i'w hystyried




Cynhyrchwyd ar y cyd â **Down Syndrome Association's Our Voice**. Mae **Our Voice** yn dîm o bobl â Syndrom Down. Gweler [www.ncepod.org.uk](http://www.ncepod.org.uk) am ragor of wybodaeth.

NCEPOD

Mae NCEPOD yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr: **1075588**
ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant: **3019382**

# Pethau i'w hystyried wrth fynd i'r ysbyty pan fydd gennych anabledd dysgu

## 1. DWEUD WRTH MEDDYGON A NYRSYS OS GENNYCH ANABLEDD DYSGU



Efallai na fydd meddygon a nyrsys yn gwybod bod gennych anabledd dysgu.

**Dywedwch** wrth y meddygon a'r nyrsys bob amser pan fyddwch chi'n cyrraedd yr ysbyty.

## 2. GOFYN AM ADDASIADAU RHESYMOL

Gallwch ofyn am **newidiadau i'ch helpu** tra byddwch yn yr ysbyty:

**AMSER:** mwy o amser i ddeall eich triniaeth, ond hefyd heb orfod aros yn rhy hir.

**AMGYLCHEDD:** lleoliad tawelach i aros neu gael eich gweld.

**AGWEDD:** eich cynnwys mewn penderfyniadau gofal.

**CYFATHREBU:** gwybodaeth a thaflenni hawdd i ddarllen.


**HELP:** gofalwr neu rywun rydych chi'n ei adnabod i ddod i'r ysbyty gydach chi.

**ADDASIADAU RHESYMOL**



## 3. DEWCH Â'CH PASBORT IECHYD GOFAL AM ADDASIADAU RHESYMOL

Mae pasbort yn **cynnwys gwybodaeth bwysig** amdanoch chi:


Community and Mental Health Services
Health Passport
My name is
NHS Number:
Date Completed:
This passport belongs to me. Please return it when I leave
Please ensure my information is kept up to date
Nursing and medical staff please look at my passport. It has information that will help you. This is a guide only
Things **you must** know about me
These things are **important** to me
My **likes** and **dislikes**
Please consider my capacity to give consent prior to any medical intervention – see Mental Capacity Act 2005
This form will be used by a range of service users with different needs.

- Enw rydych chi'n hoffi cael eich galw
- Beth rydych chi'n ei hoffi a beth nad ydych chi'n hoffi
- Eich problemau meddygol
- Pobl sy'n bwysig i chi
- Sut a phryd i'ch cefnogi

Rhannwch eich pasbort gyda meddygon a nyrsys pan gyrhaeddwch yr ysbyty. Os nad oes gennych basbort, gofynnwch am help i gael un.

## 4. GOFYNNWCH AM Y TÎM ANABLEDD DYSGU

Nid oes gan bob ysbyty dîm anabledd dysgu ar gael ar unwaith.

Dywedwch wrth staff **cyn gynted â phosib** os ydych chi'n meddwl bod angen cymorth ychwanegol arnoch chi.



Gorau po gyntaf y byddan nhw'n gwybod, gorau po gyntaf y byddan nhw'n gallu helpu

## 5. GOFYNNWCH CYN I CHI FYND ADREF

**Cyn gadael yr ysbyty**, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gwybod:

- Pa feddyginiaethau y dylech chi fod yn eu cymryd
- Pwy i gysylltu os oes gennych unrhyw broblemau
- Pryd fydd eich apwyntiad dilynol/ nesaf




Os nad ydych chi'n siŵr, gofynnwch cyn gadael yr ysbyty.